SGILIAU er CYFIAWNDER

Dysgu gweithredol

yn delio â phroblemau go iawn, yn datblygu sgiliau go iawn

Ydych chi am gymryd rhan mewn rhaglen a fydd yn helpu i ddatblygu eich sgiliau fel arweinydd ac yn eich helpu i ddelio â phroblemau go iawn yn y gweithle?

Mae dysgu gweithredol yn wahanol i'r cyrsiau sgiliau arwain arferol. Mae pobl yn datblygu eu hunain a'u sefydliad trwy:

- Ymdrin â thasgau go iawn yn y byd go iawn a'r rôl go iawn
- Dysgu gyda'i gilydd a thrwy ei gilydd
- Cymryd cyfrifoldeb unigol a rhoi atebion a chynlluniau ar waith.

Mae gan dysgu gweithredol enw da am gyflawni buddiannau go iawn i sefydliadau ac unigolion fel ei gilydd:

Buddiannau busnes allweddol

- Newid diwylliant
- Cynhyrchiant gwell
- Ad-drefnu staff
- Gwella morâl a chymhelliant staff
- Rhwydweithiau arwain cefnogol ar draws y sector

Datblygu sgiliau arwain

- Magu hyder
- Dirprwyo'n well
- Ymdopi â newid
- Sgiliau cyd-drafod
- Cydbwysedd gwaith/bywyd

Mae gan Sgiliau er Cyfiawnder le blaenllaw mewn math o ddysgu newydd arloesol wedi'i anelu at uwchreolwyr yn y sector Cyfiawnder. Am y tro cyntaf gallwch gymryd rhan mewn 'set dysgu gweithredol' i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau arwain. Mae llawer o gyflogwyr eisoes wedi ymrwymo i roi cymorth i bobl sydd am gymryd rhan.

Grŵp o bobl sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i helpu ei gilydd i ddelio â phroblemau go iawn yn y gweithle yw set dysgu gweithredol

Yn dechrau Hydref 2006

Dysgu gweithredol

yn delio â phroblemau go iawn, yn datblygu sgiliau go iawn

Ynglŷn â'r rhaglen

Mae'r rhaglen yn anelu at feithrin sgiliau arwain yn y sector Cyfiawnder trwy fynd i'r afael â materion penodol y mae pobl sydd mewn safleoedd arwain yn eu hwynebu ac yn eu galluogi i roi rhaglen newid ar waith er mwyn delio â'r materion hynny yn eu busnesau eu hunain.

Erbyn diwedd y rhaglen bydd y rhai sydd wedi cyfrannu wedi:

1. Nodi mater busnes penodol, strategol, go iawn sy'n eu hwynebu hwy a'u busnes y mae angen ei ddatrys ar unwaith.
2. Dilyn proses gyda grŵp bach, wedi'i hwyluso gan arbenigwr, i ddadansoddi'r broblem, llunio cynllun i ddelio â'r broblem, a rhoi rhaglen newid ar waith er mwyn datrys y broblem.
3. Gwerthuso effaith y broses arnynt hwy eu hunain a'u busnes er mwyn mesur effeithiolrwydd y rhaglen.
4. Creu cynllun datblygu personol er mwyn hybu eu sgiliau busnes ac arwain ymhellach.

Oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan?

Er mwyn cael y budd mwyaf o'r rhaglen dysgu gweithredol rydym yn chwilio am bobl:

- Sydd wedi ymgymryd â datblygu rheolwyr/arweinyddion yn ffurfiol neu yn y gweithle
- Sydd â chyfrifoldeb yn eu sefydliad eu hunain dros staff ac adnoddau ariannol a bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau strategol o fewn y sefydliad
- A fydd yn ymuno ac yn cymryd rhan o'u gwirfodd
- A all ddod â phroblemau go iawn ar lefel strategol y mae'n ymddangos nad oes ateb amlwg iddynt (naill ai o fewn eu cyfrifoldeb hwy eu hunain neu ar ran y sefydliad cyfan) i'r set dysgu gweithredol, e.e.
  - > *nid yw fy nghynllun busnes yn gweithio ac ni wn pam*
  - > *ni werthfawrogir y broses arfarnu ac nid yw'n cael ei chymhwyso*
  - > *gofynnir i mi gyflawni mwy gyda llai o adnoddau*
- Sydd yn barod i helpu cyfranwyr eraill i ystyried materion a chreu opsiynau.
- A fydd yn cymryd camau gweithredu gan ddysgu o effeithiau'r camau hynny
- Sydd yn barod i gynnig adborth ar ddysgu a phrofiadau i weddill y grŵp
- A fydd yn mynychu'r digwyddiad gwaith tîm anffurfiol, ac yn cychwyn a chloi'r gweithdai.
- A fydd yn mynychu o leiaf 80% o'r gweithdai.
- Sydd yn fodlon cynnig adborth er mwyn hwyluso'r gwerthuso

A yw hyn yn swnio'n debyg i chi? Peidiwch â phoeni os nad yw pob un o'r meini prawf uchod yn berthnasol i chi. Os gallwch ateb 'ie' i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau uchod, gallech fod yn gymwys i gymryd rhan.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan a hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yng Nghymru - nicholas.skeet@skillsforjustice.com

Yn yr Alban – tommy.cuthbert@skillsforjustice.com

Yng Ngogledd Iwerddon – judith.thompson@skillsforjustice.com

Yn Lloegr – simon.leckie@skillsforjustice.com

Byddwch yn cymryd rhan mewn:

- **Cyfarfod cyn gweithdy**
- **Gweithdy cychwynnol undydd**
- **Saith o weithdai hanner diwrnod dros gyfnod o 9 - 12 mis**
- **Dysgu cymwysedig yn y gweithle**
- **Dwy sesiwn hyfforddi hanner diwrnod un i un**
- **Gweithdy undydd i gloi**

Os hoffech wybod mwy am y rhaglen dysgu gweithredol cysylltwch â ni yn: simon.leckie@skillsforjustice.com